# Tystiolaeth CLlLC:
# Ymchwiliad Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Gwasanaethau Tân ac Achub

Rachel Morgan Swyddog Polisi Diogelwch Cymunedol

## Cyflwyniad

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 Cynghorau yng Nghymru yw ein aelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym yn credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

• Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
• Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
• Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
• Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
• Annog democratiaeth leol fywiog, sy'n hybu mwy o ddemocratiaeth
• Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

# Ymchwiliad - Gwasanaethau Tân ac Achub

## Cefndir

Y Berthynas Rhwng CLlLC a'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn rhan o'r teulu llywodraeth leol. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn aelodau cyswllt o CLlLC. Mae pob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub yn enwebu cynrychiolydd i fod yn rhan o Gyngor CLlLC ac mae cynrychiolydd cyfunol yn rhan o Fwrdd Gweithredol CLlLC. Swyddogaeth y Gymdeithas yw gweithredu fel corff cynrychioliadol yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru; cefnogi'r Awdurdodau hyn yn eu rôl; ac i eirioli dros yr Awdurdodau Tân ac Achub a lobïo ar eu rhan nhw i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel sy'n briodol.

Mae CLlLC hefyd yn cynnal Panel Tân ac Achub CLlLC sy'n cael ei gadeirio gan un o Lefarydd Cyfiawnder Cymdeithasol CLlLC ac mae'n cynnwys Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion pob Awdurdod Tân ac Achub a phob un o'r Prif Swyddogion Tân. Amcanion y Panel yw:

- Helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng CLlLC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub ymhellach
- Galluogi trafodaeth rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub a CLlLC ar faterion strategol allweddol
- Helpu i hwyluso datblygiad dull Cymru gyfan pan fo'n briodol
- Codi unrhyw bryderon a/neu adlewyrchu barn i Lywodraeth Cymru.

Mae aelodau CLlLC hefyd yn cymryd rhan ochr yn ochr ag aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfarfodydd Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub a'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae CLlLC yn mynd i gyfarfodydd Cadeiryddion a Phenaethiaid â Llywodraeth Cymru yn achlysurol.

Cynghorau yw'r ariannwr mwyaf arwyddocaol ar gyfer gwaith y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru hefyd drwy ardoll y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei chyflwyno i'r cynghorau cyfansoddol bob blwyddyn. Mae hwn yn swm sylweddol o arian ac mae pob Cyngor yn craffu ar gynigion ynghylch pa gais ariannol sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Tân ac Achub cyn gosod y gyllideb derfynol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynghorau wedi bod yn glir iawn bod angen i Awdurdodau Tân ac Achub ystyried ac adlewyrchu'r cyd-destun ariannol ehangach sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn llawn a'r pwysau wrth bennu eu cyllidebau.

CLlLC hefyd yw'r sefydliad cyflogwyr ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'n cynrychioli Awdurdodau Tân ac Achub fel aelod o'r Ochrau Cyflogwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Corff Negodi'r Rheolwyr Canol, a'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigad Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys trafodaethau cyflog ac unrhyw newidiadau i'r Telerau ac Amodau.

Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant a Gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cafodd CLlLC ddiweddariadau ar gynnydd yr Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant a Gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru trwy drafodaethau ym Mhanel Tân ac Achub CLlLC ac yng nghyfarfodydd Partneriaeth Gymdeithasol y Gwasanaethau Tân. Roedd y Gymdeithas yn cefnogi'r Adolygiad ac yr oedd yn ymrwymedig i weithio gydag Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, a'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill fel sy'n briodol, er mwyn cynorthwyo i roi ei hargymhellion ar waith ac i rannu gwersi a ddysgwyd.

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd CLlLC ddatganiadau i'r wasg mewn ymateb i'r adroddiad ar ran CLlLC[1] ac ar ran y 10 Cyngor cyfansoddol[2]. Ysgrifennodd Arweinydd CLlLC, y Cynghorydd Andrew Morgan a Llefarydd y Gwasanaethau Tân ac Achub, y Cynghorydd Lis Burnett hefyd at Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Cynghorydd Steve Bradwick, gan anfon copi at holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub a Chadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru, yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn yr adroddiad a'i argymhellion yn llawn a thynnu sylw at yr arweiniad sydd ei angen i weithredu'n llawn a gwneud ac ymgorffori'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad a gwella diwylliant gwaith y Gwasanaeth. Fel aelod cyswllt o CLlLC, rhoddwyd cymorth hefyd i'r Gwasanaeth a'r Awdurdod wneud y newidiadau angenrheidiol.

Gwnaeth CLlLC hefyd annog yr Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i fyfyrio ar yr argymhellion a gweithredu arnynt fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol, a bydd Adroddiad Morris yn eitem allweddol ar y rhaglen i'w thrafod yn Fforwm Tân ac Achub nesaf CLlLC.

Cafodd Bwrdd Gweithredol CLlLC adroddiad ym mis Chwefror yn hysbysu aelodau CLlLC am ganlyniad adolygiad Morris, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd mewn ymateb iddo.

Mae CLlLC yn deall bod gwersi yn yr adroddiad i gyrff cyhoeddus eraill gan fod ymddygiad gwael neu ddatblygu diwylliant anghywir yn gallu effeithio ar bob sefydliad, naill ai mewn

[1] WLGA yn Ymateb i Ymchwiliad i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru - CLlLC
[2] CLlLC yn Ymateb i Ymchwiliad i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru - CLlLC

adrannau neu ar draws y sefydliad cyfan. Mae adroddiadau diweddar tebyg eraill wedi nodi arferion drwg tebyg mewn sefydliadau eraill ac yn yr un modd, gellir dysgu gwersi o'r adolygiadau hynny, er enghraifft, profiadau diweddar yn S4C ac Undeb Rygbi Cymru ac ar lefel y DU, adolygiadau a gynhaliwyd ar gyfer yr Heddlu Metropolitanaidd a Brigâd Dân Llundain.

## Llywodraethu Tân ac Achub

Nid yw CLlLC wedi ystyried a thrafod mater Llywodraethu Tân ac Achub yn ffurfiol ers ei hymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn 2019.[3] Yn ei hymateb i'r Papur Gwyn nid oedd y Gymdeithas yn credu, bryd hynny, fod angen newidiadau sylweddol, na bod yr achos dros newid wedi'i wneud, ond yr oedd yn derbyn yn llwyr bod lle i wella bob amser a nododd nifer o feysydd lle byddai'n croesawu trafodaeth ac archwiliad pellach.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru yn gysylltiedig â Llywodraethu'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac yr ydym ni'n aros am ganlyniad eu hadolygiad. Nodir hefyd fod y Cylch Gorchwyl ar gyfer Comisiynwyr yng Ngwasanaethau Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys yr amcan i: 'ddatblygu cynigion ar gyfer llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub De Cymru yn y dyfodol sy'n fwyaf tebygol o leihau'r risg o fethiannau o'r fath ymhellach'. Nid yw CLlLC wedi trafod na chytuno ar safbwynt ffurfiol yn llawn eto ynghylch llywodraethu a bydd yn ystyried canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru yn ogystal ag unrhyw argymhellion yn ymwneud â llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub yn y dyfodol a allai ddeillio o Dde Cymru.

Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ym mis Chwefror cytunodd aelodau Bwrdd Gweithredol CLlLC ar set eang o egwyddorion y mae'r Gymdeithas yn cynnig y dylen nhw fod yn sail i unrhyw argymhellion ynghylch newidiadau yn y dyfodol i lywodraethu ac atebolrwydd y Gwasanaethau Tân ac Achub y byddai'r Gymdeithas yn dymuno eu rhannu â'r Pwyllgor yn rhan o'i ymchwiliad. Mae'r egwyddorion hyn fel a ganlyn:

- Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub barhau yn rhan o'r teulu llywodraeth leol.
- Dylai Awdurdodau Lleol barhau i enwebu aelodau i wasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub.
- Dylai Awdurdodau Tân ac Achub aros ar wahân gan ddefnyddio'r un ffiniau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd.
- Nid yw CLlLC yn cefnogi trosglwyddo rheolaeth y Gwasanaethau Tân ac Achub i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

---

Download.aspx (wlga.wales)[3]

- Gellid penodi aelodau Awdurdodau Tân ac Achub o Gabinet yr Awdurdodau Lleol, er, byddai angen ystyried capasiti; cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdodau hyn; ac a ellid diwygio'r terfyn presennol ar faint Cabinet yr Awdurdodau Lleol.

- Cefnogir cynrychiolaeth gymesur ar sail ei bod yn adlewyrchu maint y boblogaeth a lefelau'r cyllid a ddarperir i'r Awdurdod Tân ac Achub.

- Er nad oes cyfyngiad ar yr Awdurdodau Tân ac Achub presennol i gyfethol aelod ar gyfer materion penodol neu i gael cyngor arbenigol allanol, efallai y bydd meysydd y gallai aelodau anweithredol ychwanegu gwerth iddynt, yn enwedig yn gysylltiedig â chraffu a herio, ond mae angen trafodaeth bellach ar hyn. Os bydd aelodau anweithredol yn rhan o'r Awdurdodau Tân ac Achub, mae CLlLC yn credu y dylai awdurdodau lleol neu Awdurdodau Tân ac Achub fod yn gyfrifol am y broses benodi, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel sy'n wir am aelodau lleyg awdurdodau lleol ar Bwyllgorau Safonau ac Archwilio ar hyn o bryd.

- Er bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chynghorau ynghylch anghenion ariannol y Gwasanaethau Tân ac Achub yn rhan o'r broses o ran gosod ardoll, yn y tymor hir, byddai'n well gan gynghorau i'r mecanwaith ariannu gael ei newid i fodel praesept yn hytrach nag ardoll y maen nhw'n credu y byddai'n dod â mwy o dryloywder i'r cyhoedd o ran y ffordd y caiff y Gwasanaethau Tân ac Achub eu hariannu.

## Materion yn Codi o'r Ymyrraeth Bresennol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Goblygiadau ar gyfer Llywodraethu

Ar 6 Chwefror 2024, cyhoeddodd Dirprwy Weinidog y Bartneriaeth Gymdeithasol ei bod hi, yn sgil yr Adroddiad Annibynnol ar Ddiwylliant a Gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, wedi rhoi swyddogaethau Awdurdodau Tân ac Achub De Cymru i Gomisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae penodi Comisiynwyr i gynnal ac ymgymryd â swyddogaethau Awdurdod Tân ac Achub yn gam digynsail yng Nghymru ac felly mae diffyg eglurder ynghylch sut y byddir yn mynd ati i feithrin perthnasoedd ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol wrth symud ymlaen, ar ôl i'r aelodau etholedig a enwebwyd o bob awdurdod i'r Awdurdod Tân ac Achub fod yn gyswllt allweddol yn y gorffennol rhwng cynghorau unigol, cymunedau lleol a'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae'r Cylch Gorchwyl sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiynwyr yn ymdrin â materion mwy eang na gweithredu argymhellion adroddiad yr Adolygiad o Ddiwylliant. Mae'n bwysig bod gan gynghorau a phartneriaid ddealltwriaeth lawn o rôl, cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Comisiynwyr fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl ac, wrth i'w gwaith nhw fynd rhagddo, mae angen ystyried a nodi a oes unrhyw oblygiadau posibl yn sgil

penderfyniadau neu gamau gweithredu y mae Comisiynwyr yn eu cymryd, neu argymhellion gan y Comisiynwyr i Lywodraeth Cymru, a allai effeithio ar y berthynas rhwng y cynghorau cyfansoddol a'r Awdurdod Tân ac Achub a/neu'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

Mae CLlLC a'r cynghorau cyfansoddol yn awyddus i sefydlu perthynas waith dda gyda'r Comisiynwyr, gan gynnig cefnogaeth a chymorth a allai fod o gymorth a sicrhau bod cynghorau'n ymgysylltu'n llawn â'u gwaith nhw fel sy'n briodol. Mae cyfarfod cychwynnol eisoes wedi'i gynnal ar ddechrau mis Mawrth rhwng y Comisiynwyr a Llefarydd CLlLC dros Dân ac Achub a Llefarydd CLlLC dros y Gweithlu.

Mae 10 Arweinydd De Cymru wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi nodi nifer o bryderon a chwestiynau heb eu hateb ynghylch y goblygiadau i gynghorau a chymunedau lleol yn dilyn y cam hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae amrywiaeth o faterion sy'n parhau i fod yn aneglur a phrin fu'r wybodaeth a'r cyfathrebu â'r cynghorau hyd yn hyn, er mai cynghorau yw prif noddwr yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Arweinwyr eisiau trefnu cyfarfodydd â'r Dirprwy Weinidog a'r Comisiynwyr i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw ran y bydd gan gynghorau wrth gefnogi'r Comisiynwyr a sicrhau eu bod nhw'n cael eu hysbysu'n rheolaidd, ac y gofynnir am eu barn nhw, wrth i'w gwaith barhau.

## Datblygu a Hyfforddi Aelodau

Mae'r FRS yng Nghymru yn ddarparu Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau ar gyfer aelodau o'r FRAs yng Nghymru drwy eu Strategaethau Datblygu Aelodau a Rhaglenni Hyfforddi cynhwysfawr. Bydd y rhain yn ymdrin â meysydd fel: Cod Ymddygiad a Moeseg; Hyfforddiant Sefydlu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion; Cynllunio Cyllideb Gorfforaethol; Rheoli Trysorlys; Hyfforddiant Craffu; Adolygiad Datblygiad Annibynnol; Cyfathrebu a'r Cyfryngau Cymdeithasol. Yn ogystal, o ganlyniad i'r amgylchedd deddfwriaethol a rheoleiddiol deinamig y mae FRSs yn gweithredu ynddo, mae'r Aelodau wedi bod yn derbyn sesiynau briffio a hyfforddiant Diogelwch Tân Busnes i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar sut y caiff y gwasanaethau eu darparu, yn ogystal â sesiynau briffio rheolaidd ar faterion cyfredol eraill megis diwylliant a llywodraethu'r Gwasanaeth Tân ac Achub, materion halogedig, ac unrhyw faterion eraill a allai godi. Mae Aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynd gyda Swyddogion i gynadleddau fel CIPFA, WLGA, LGA ac eraill.

Yn ogystal a'r hyfforddiant a'r datblygiad a ddarperir gan y GTA, bydd pob aelod etholedig yn derbyn ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu drwy raglenni hyfforddi a datblygu aelodau eu priod awdurdodau cartref, a fydd yn eu cynorthwyo yn eu rolau. Mae CLlLC yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i helpu i ddarparu'r cymorth pwysig hwn i gynghorwyr, gan weithio mewn partneriaeth â'r cynghorwyr eu hunain a'r swyddogion sy'n eu cefnogi. Er enghraifft, cynhyrchodd y Gymdeithas gyfres o fodiwlau e-ddysgu ar gyfer

cynghorau cyn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf a oedd ar gael i'r holl awdurdodau lleol, Awdurdodau Tân a Chymdeithasau Parciau Cenedlaethol. Mae CLlLC hefyd wedi datblygu nifer o Fframweithiau Cenedlaethol sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub gan gynnwys y Siarter Datblygu Aelodau (Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogi'r Cynghorwyr Cymru erbyn hyn), Disgrifiadau Rôl Aelodau a Fframwaith Cymhwysedd Aelodau.

## Casgliad

Mae CLlLC yn gobeithio bod y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, gweler y manylion cyswllt a ddarparwyd.

Ymchwiliad Y Pwyllgor CChC

Mawrth 2024

Ymchwiliad Y Pwyllgor CChC

Mawrth 2024